# Y CABINET DYDD MAWRTH, 13 MAWRTH 2018

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Mair Rowlands, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd), Hedd Morlais Tomos (Rheolwr Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion)
Eitem 7: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi A Chymuned), Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol), Nia Morris
Eitem 8: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Eitem 9: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesant), Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes), Erin Fôn Jones (Rheolwr Categori)
Eitem 10: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Eitem 11: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 12: Dewi Morgan (Uwch Reolwr – Refeniw a Risg)
Eitem 13: Gwenllïan Mair Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg)
Eitem 14: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau’r Cabinet a Swyddogion i’r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 6 - Dyfodol Darpariaeth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dafydd Meurig oherwydd bod ei chwaer yn rhedeg meithrinfa ar safle Ysgol y Faenol. Roedd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.
Bu i’r Aelod Lleol ar gyfer yr eitem uchod – Cyng. Richard Medwyn Hughes – ddatgan buddiant gan ei fod yn un o Lywodraethwyr Ysgol Coed Mawr ac Ysgol Glanadda. Nid oedd yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac felly roedd modd iddo ddatgan ei farn.

Eitem 7 – Ailfodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid

Derbyniwyd datganiad buddiant gan Cyng. W Gareth Roberts, gan fod ei fab yng nghyfraith yn gyflogedig gan y Gwasanaeth. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly bu iddo adael y cyfarfod.
Eitem 12 - Rhyddhad Dewisol Treth Annomestig

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dyfrig Siencyn, Cyng. Mair Rowlands, Cyng. Peredur Jenkins a'r Pennaeth Cyllid, Dafydd Edwards, gan eu bod hwy yn ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr ar amrywiol glybiau a mentrau sydd yn cael rhyddhad treth. Cynghorodd Iwan Evans, Swyddog Monitro ar y buddiannau personol a phwysleisio nad oeddent yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac felly fod gan yr aelodau a'r swyddog hawl i gymryd rhan y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 13 CHWEFROR

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 13 Chwefror 2018, fel rhai cywir

## 6. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN NALGYLCH BANGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd:

i. Cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Bangor ar gynnig i gau ysgolion Glanadda a Choedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

ii. Cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn ymwneud a chynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac adrodd ar y canlyniadau i'r Cabinet.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai pwrpas yr adroddiad oedd cael caniatâd i fwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol parthed y broses o ad-drefnu ysgolion Bangor. Ychwanegwyd fod y Llywodraeth Cymru yn niwedd 2016 wedi

hysbysu Awdurdodau Lleol gyda'r capasiti, fod modd ymgeisio am fwy o arian i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Yn dilyn gwneud cais bu i'r Adran Addysg dderbyn cadarnhad fod yr arian wedi ei glustnodi mewn egwyddor.

Yn ychwanegol at hyn, mae datblygiad tai newydd ym Mangor. Un o'r amodau cynllunio pan gytunwyd i'r cais oedd bod y cwmni yn ymrwymo i gyfrannu arian tuag at ddarpariaeth addysg oed cynradd ym Mangor. Drwy gyfuno arian gan Lywodraeth Cymru a'r Cwmni Datblygu Tai mae cyllideb o oddeutu £13.8m.

Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud yn edrych ar yr opsiynau posib, a nodwyd o'r 9 Ysgol Gynradd ym Mangor fod dwy ysgol gyda'r niferoedd uchel dros y capasiti a 2 yn weddol wag. Bydd angen ymgynghori ar yr opsiwn sydd wedi ei ffafrio gan yr adran. Yr opsiwn ffafredig yw cynyddu capasiti Ysgol y Faenol, i adeiladu Ysgol newydd i Ysgol y Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420 ac i Gau Ysgol Coed Mawr a Glanadda.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Cafwyd sylwadau gan yr Aelodau Lleol a nodwyd eu bod yn llongyfarch y Cyngor ar dderbyn yr arian yma. Awgrymodd fod yr Adran yn ail edrych ar yr opsiynau ac yn ffafrio opsiwn 10, sef i gynyddu capasiti Y Faenol, rhoi Ysgol newydd a chynyddu capasiti y Garnedd ac i addasu safle Glanadda i dderbyn plant o Ysgol Coed Mawr. Nododd fod lefel addysg Glanadda a Coed Mawr wedi bod yn y categori coch, ond ers cael Pennaeth dros dro mae'r ysgol wedi codi i gategori oren.
- Ychwanegodd yr Aelodau Lleol ei bod yn gamgymeriad i fynd am opsiwn 3 gan fod Ysgol Cae Top a Glancegin, sydd wedi cael eu datblygu yn ystod y 8 mlynedd diwethaf dros capasiti yn barod. Gyda'r wardiau yn tyfu a mwy o alw am dai i deuluoedd bydd niferoedd yn yr ysgolion yn parhau i godi.
- Trafodwyd diogelwch y plant ar y ffordd i'r ysgol, nodwyd fod y ffordd yn un prysur ond fod plant yn teithio arni yn ddyddiol. Yn ychwanegol codwyd y broblem traffic ar y ffyrdd sydd yn bodoli yn barod, gan fod 5 ysgol ac Ysbyty yn yr un ardal.
- Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i wrando a thrafod ac aelodau a phobl leol, ac yn ychwanegol i gofio am y mudiad meithrin

## 7. AILFODELU'R GWASNAETH IEUENCITD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

i. Cymeradwyo mabwysiadu'r model o Glwb Ieuenctid Sirol, Opsiwn 3 gyda'r diwygiadau a nodir ym mharagraff 10.1 o'r adroddiad ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid
ii. Cymeradwyo ail-broffilio £24,800 o'r arbedion o 2018/19 I 2019/20 er mwyn cyfarch peth ariannu o'r mudiadau gwirfoddol yn 2018/19 fel nodir

yn rhan 10.4.3 o’r adroddiad.

iii. Ymrwymo’r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant i adrodd yn ôl i’r Cabinet bob pedwar mis ar gynnydd y gwasanaeth

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod llawer o resymau dros ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid. Nodwyd fod disgwyliad gan Lywodraeth Cymru fod Cyngor Gwynedd yn ail-fodelu’r gwasanaeth. Yn ychwanegol yn dilyn ymgynghoriad Her Gwynedd penderfynodd y Cyngor Llawn i dorri £200,000 o gyllideb y Gwasanaeth, ynghyd a chyflawni targed effeithlonrwydd o £70,000. O ganlyniad i hyn, mynegwyd eu bod yn amhosib i’r gwasanaeth barhau yn y strwythur sydd ar hyn o bryd.

Bu i ymgynghoriad gael ei gynnal gyda phobl ifanc, sydd wedi nodi eu bod eisiau model gwahanol. Bydd y strwythur newydd yn un arloesol a chyffroes a fydd yn rhoi'r un ddarpariaeth ieuenctid i bob person ifanc ar draws y sir.

Ychwanegwyd fod elfennau negyddol i’r ail-strwythuro, gan fod rhai o’r bobl ifanc eisiau parhau i fynychu eu clwb ieuenctid lleol. Nodwyd yn ogystal y bydd grantiau i gefnogi cyrff gwirfoddol sydd yn gweithio yn y maes yn terfynu ymhen 9 mis.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth

- Nodwyd fod gwaith ymgysylltu wedi ei wneud gyda’r bobl ifanc a bod dros 3,000 wedi cymryd rhan. Ymgynghoriad wedi pwysleisio fod pobl ifanc eisiau gweithwyr ieuenctid sydd ar gael yn gyson.
- Teithio yw un o brif broblemau pobl ifanc, a sut bydd modd cael mynediad at y gwasanaeth. Bydd y model yma sicrhau fod y gweithiwr ieuenctid yn mynd allan at y bobl ifanc yn hytrach na'r bobl ifanc yn mynd at y gweithiwr.
- Rhai ardaloedd am i’r clybiau barhau yn eu cymunedau, nodwyd fod angen gwneud gwaith ymgysylltu yn lleol i weld os yw’r Cynghorau Cymuned yn awyddus i gymryd y clwb neu wirfoddolwyr. Ychwanegwyd y bydd staff ar gael i roi cymorth ac i gefnogi gwirfoddolwyr.
- Trafodwyd yr amserlen a nodwyd fod y ddarpariaeth yn dod ben yn flynyddol ym mis Ebrill ac yn ailgychwyn ym mis Medi, bydd y cylch yma yn digwydd eto. Bydd y clybiau yn cau ym mis Ebrill a bydd y ddarpariaeth newydd yn cychwyn ym mis Medi. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r adran i ddad-gymalu’r hen strwythur ac i adnabod anghenion lleol ac i drafod a phartneriaid.
- Mynegwyd pwysigrwydd ieuenctid i’r sir, a phwysigrwydd i gadw’r bobl ifanc yma. Credwyd fod modd i’r gwasanaeth newydd allu cyd-weithio yn agos a’r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.
- Nodwyd fod terfynu grantiau cefnogi'r mudiadau gwirfoddol yn mynd i fod yn anodd, gan fod y ddau brif fudiadau yn gwneud gwaith da. Bu i’r aelodau gydnabod gwaith da'r mudiadau a gofyn i’r swyddogion i weithio yn agos a’r mudiadau. Mynegwyd unwaith y bydd y gwasanaeth ieuenctid yn ymwybodol o’r math o weithgaredd y bydd pobl ifanc yn ei hoffi ym mhob ardal bydd modd comisiynu'r gweithgareddau.
- Ychwanegwyd fod angen i’r Aelod Cabinet ar Dai, Diwylliant a Hamdden i

adrodd ar gynnydd y gwasanaeth i'r Cabinet bob pedwar mis

## 8. ADOLYGIAD SENEDDOL IECHYD A GOFAL YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan a Cyng. W Gareth Roberts

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

i. Derbyn yr adroddiad a'r atodiad gan nodi plethant yn y cynlluniau sydd eisoes yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gyda'r cyfeiriad a nodi'r yn yr adolygiad.

ii. Gofyn i'r Arweinydd a Prif Weithredwr gysylltu yn uniongyrchol a Llywodraeth Cymru, yn ychwanegol i Aelodau Cynulliad a'r WLGA i amlygu'r cwestiwn o sut bydd modd symud ymlaen yn dilyn yr adolygiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr Adolygiad Seneddol yn cadarnhau fod y newidiadau mae'r Adrannau Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi ei wneud yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Ychwanegwyd fod y Cyngor yn cael ei weld fel Awdurdod sydd ar flaen y gad.

Nodwyd fod y gwaith o weithio yn integredig yn yr adrannau wedi cael ei chynnwys fel arferion da. Mynegwyd fod yr adroddiad yn dangos yn glir y ffordd ymlaen, gan bwysleisio fod angen cadw penderfyniadau yn lleol. Er hyn mae llawer o drafodaethau yn rhai cenedlaethol, ond fod angen i'r gwaith gychwyn yn lleol. Ychwanegwyd fod yr amserlen i adrodd yn ôl yn brin ac mae hyn yn destun pryder. Nodwyd ei bod yn bwysig i beidio rhytho ac i sicrhau ei bod yn glir beth sydd angen ei newid yn rhanbarthol, a bod y rhai yn gwau i mewn i'w gilydd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd mai cychwyn y daith yw hyn ond fod yr adroddiad yn tanlinellu fod Gwynedd o flaen y gad. Ychwanegwyd fod Adroddiad Williams yn codi pryderon ac yr amserlen dynn.
- Angen trafodaeth a'r Aelodau Cynulliad er mwyn adeiladu ar yr adroddiad a sicrhau fod y dinasyddion yn ganolog. Angen pwysleisio fod angen ymateb yn bwyllog ac i dalu sylw i sicrhau ateb i'r argymhellion. Ychwanegwyd i'r Prif Weithredwr ac Arweinydd i lunio neges i'r Llywodraeth, Aelodau Cynulliad a WLGA i amlygu'r cwestiwn o sut bydd modd symud ymlaen yn dilyn yr adolygiad

## 9. CYNLLUN RHANBARTHOL ASESIAD O BOBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2018 I 2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. W Gareth Roberts

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i gymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol i sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pwysleisiwyd fod hwn yn gynllun rhanbarthol a'i bod yn ddogfen fyw a fydd yn datblygu dros amser, ond gofynnwyd y cwestiwn sut y bydd Asesiad Lleol yn dod i mewn i hwn.

Nodwyd fod y Cynllun wedi dilyn trefn y ddeddf o wneud y cynllun rhanbarthol ar y cyd, ac yn creu un lleol. I'r dyfodol efallai ei bod yn syniad i wneud Asesiad Lleol i gychwyn ac yna cyfuno i greu un rhanbarthol. Mae sicrwydd fod Asesiad Lleol ar gael i'r sir, ond er hyn mae agweddau lleol Gwynedd i'r gweld yn y Cynllun Rhanbarthol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y Cynllun yn un syml i'w ddarllen, ond er hyn mae amlygu nad yw'r Strwythur Rhanbarthol Trawsnewid ddim yn glir.
- Ychwanegwyd fod y gwahaniaethau amlwg rhwng gweithio yn rhanbarthol ac yn lleol y Ddeddf ac Adolygiad Seneddol yn peri tyndra.

## 10. NEWID I AMODAU GWAITH LLEOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Amodau Gwaith Lleol y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r newidiadau arfaethedig sydd i'r Amodau Gwaith Lleol. Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r undebau cydnabyddedig ers Hydref 2015, er hyn nid oes modd sicrhau cytundeb torfol er mwyn gwireddu'r arbediad o ganlyniad i Swyddfa Genedlaethol Unsain yn gwrthod i unrhyw gangen leol fynd i falot ar gynnig sy'n ymwneud a dirywiad mewn amodau gwaith.

Ychwanegwyd fod gwaith ymgynghori gyda staff wedi ei wneud ac mae 116 o'r 6,000 o wedi ymateb, a nodwyd y prif ymatebion. Pwysleisiwyd nad oedd Gofalwyr Cymdeithasol Cymunedol yn cael ei gynnwys yn yr addasiad i ad-dalu costau teithio gan mai eu cartref yw eu lleoliad gwaith. Yn ychwanegol at hyn ni fydd gweithwyr graenu na phriffyrdd yn cael eu cynnwys yn yr amod i leihau'r taliad i fod ar ddyletswydd tu allan i oriau gwaith arferol.

Er hyn roedd nifer o sylwadau a dderbyniwyd yn adlewyrchiad o’r farn gyffredinol sef fod y pecyn dan ystyriaeth, er ddim yn ddymunol, yn gam sydd angen ei gymryd.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd gwerthfawrogiad i’r cydweithio agos rhwng staff y Cyngor a’r Undebau.

## – YMATEB CYNGOR GWYNEDD I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL AR GYNLLUN LLESIANT DRAFFT GWYNEDD A MON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i’r Ymgynghoriad Statudol ar Gynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn wedi ei gyhoeddi. Ychwanegwyd fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cael craffu'r Cynllun a bod eu hymatebion wedi eu hymgorffori o fewn yr ymateb drafft a oedd yn cael ei gyflwyno. Nodwyd fod yr ymateb yn nodi fod angen cryfhau rhai elfennau o fewn yr amcanion llesiant a blaenoriaethau a bod diffyg gwybodaeth yn y cynllun am y dulliau gweithredu.

Mynegwyd fod yr ymateb yn un teg ac mai cam nesaf y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn fydd i benderfynu ar sut bydd modd gweithredu ar y cynllun.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd mai‘r blaenoriaethau yw cael cymunedau iach ac i rymuso’r cymunedau. Ychwanegwyd ei bod yn bwysig sicrhau nad oes dyblygu yn digwydd a bod cyd-weithio ar sut mae’r amcanion yn cael eu cyflawni

## 12. RHYDDHAD DEWISIOL TRETHI ANNOMESTIG

Cyflwynwyd gan y Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu’r Fframwaith ar gyfer Caniatáu Rhyddhad Dewisol rhag Trethi Annomestig sy’n ymddangos yn Atodiad 1 i’r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn amserol i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i Bolisi Rhyddhad Dewisol, gan fod y fframwaith wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn a bod angen sicrhau ei fod yn parhau'n addas yn sgil newidiadau deddfwriaethol. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Medi 2017 i sefydlu Grŵp Ymchwil i adolygu'r Fframwaith presennol. Cyfarfu'r Grŵp dwywaith a'r canlyniad oedd bod y Grŵp ar y cyfan yn fodlon â'r fframwaith oedd yn ei le ond amlygwyd rhai addasiadau.

Ymhelaethwyd ar yr holl addasiadau oedd yn cynnwys diddymu'r rhyddhad ychwanegol i Fudiadau o Ddiddordeb Arbennig i Rai sydd wedi'u cofrestru fel elusen ond heb gysylltiad lleol. Roedd yr addasiadau yma o ganlyniad i gytuno ar egwyddor na ddylai arian trethdalwyr Gwynedd dalu i lenwi'r bwlch treth pan nad oes budd lleol. Yn ogystal, nodwyd argymhelliad y Grŵp Ymchwil y dylai'r rhyddhad ychwanegol dewisol a roddir yn ddiofyn i eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y RSPCA a'r RSPB ddod i ben. Eglurwyd mai cyfiawnhad hyn yw na ddylid ymdrin â'r elusennau cenedlaethol hyn yn wahanol i elusennau eraill, ac o ganlyniad bydd angen i eiddo'r elusennau hyn fel pawb arall gael eu hystyried yn unol â'u haeddiant.

## 13. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2018

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y fersiwn ymgynghori o Strategaeth Iaith 2018.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen sicrhau'r cytundeb ar gynnwys y strategaeth a'r flaenoriaethau, a'u bod yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod mewn cynlluniau eraill megis Cynllun y Cyngor. Ymhelaethwyd fod angen i'r strategaeth nodi targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Pwysleisiwyd fod y Cyngor o flaen y gad o ran strategaeth iaith o ran Cymru, ond fod y polisi iaith yn dangos ymrwymiad  y Cyngor i'r iaith. Ychwanegwyd fod y strategaeth yn adeiladu ar y gwaith o hybu defnydd y Gymraeg. Nodwyd fod y strategaeth angen mynd i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mawrth ac Ebrill ac i ganlyniad yr ymgynghoriaeth gael ei drafod ym mis Ebrill. Bwriedir i'r strategaeth ddod yn ôl i'r Cabinet ym mis Mehefin, cyn mynd i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf

## 14. ADRODDIAD AR RAGLEN ARBEDION ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. W Gareth Roberts

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

a) Cyfuno rhai cynlluniau (sydd wedi eu cymeradwyo) i ffrydiau gwaith sydd yn cyflawni arbedion o'r un cyllidebau, ac yn ail broffilio cyfwerth a £270,000 o arbedion 2018/19 I 2019/20 fel yr amlinellir yn rhan 7 o'r adroddiad.
b) Cynyddu'r targed arbedion mewn rhai meysydd sy'n cyflawni mwy na'r targed gwreiddiol, sef £195,000 yn 2018/10 a £200,000 yn 2019/20, fel yr amlinellir yn rhan 8 o'r adroddiad.
c) Cynyddu'r targed arbedion o gynlluniau newydd sef £390,000 yn 2018/19 a £570,000 yn 2019/20, fel yr amlinellir yn rhan 9 o'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r rhaglen arbedion arfaethedig. Nodwyd fod y rhaglen arbedion blaenorol wedi llithro o ganlyniad i newid yn y maes gofal yn genedlaethol. Yn dilyn amser yn ail strwythuro a rhesymoli y rhaglen, mae cynlluniau newydd wedi eu cynnig.  Ychwanegwyd fod modd i'r adran gyflawni mwy na'r targed gwreiddiol mewn rhai meysydd.

Er hyn, nodwyd fod yr her yn parhau, gan y bydd angen lithro rhai cynlluniau. Pwysleisiwyd mai bwriad yr adran oedd comisiynu yn wahanol ac i newid y gwasanaeth yn hytrach na lleihau'r gwasanaeth sydd ar gael.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cadarnhawyd fod yr arbedion yma yn cyfarch y targedau hanesyddol, ond fod arbedion pellach i'r Cyngor i'w gweld yn y dyfodol, a nodwyd fod yr adran yn rhagweld y bydd modd adeiladu ar y rhaglen arfaethedig

## 15. CYNLLUNIAU TRETHIANT LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Ymateb yn gefnogol i fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd, gan nodi sylwadau a wnaethpwyd yn y drafodaeth ac yn benodol awydd fod nodweddion lleol yn cael eu pwysleisio yn y gyfundrefn.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gan Lywodraeth Cymru'r hawl i ddeddfu i gael trethi newydd. Ychwanegwyd fod yr eitem yn gyfle i drafod y cynigion ac i benderfynu ar y camau nesaf ymlaen. Edrychwyd ar bob un o'r trethi yn unigol.

Treth ar Dir Gwag
Mewn egwyddor mae'r dreth yn un defnyddiol a fydd yn rhoi diwedd ar gwmnïau

mawr yn eistedd ar diroedd am gyfnod hir. Ychwanegwyd fod angen mwy o wybodaeth a'i fod yn anodd ei ddiffinio. Nodwyd fod hyn yn digwydd yn barod yn Iwerddon

Ardoll Gofal Cymdeithasol
Awgrymwyd fod posibilrwydd fod gwerth i wneud hyn, gan fod poblogaeth yn byw yn hyn ac angen cefnogaeth, felly buasai yn bosibl ei ddefnyddio er mwyn gyfarch y galw ar y gwasanaeth.

Treth ar ddeunydd plastic untro
Nodwyd fod cynnig wedi bod yn y Cyngor Llawn ynglŷn â Phlastig untro. Holwyd gan mai treth genedlaethol a fuasai hwn ac o ganlyniad holwyd faint fydd modd ei hawlio yng Ngwynedd. Nodwyd y byddai angen gofyn i ddatganoli'r arian a'i ddosbarthu ar lefel leol.

Treth ar Dwristiaeth
Mynegwyd cefnogaeth i'r dreth, gan bwysleisio ei fod i'w weld fel treth lleol dramor ar hyn o bryd. Ychwanegwyd nad yw'n dreth uchel iawn ond y byddai angen i fusnesau weld manteision lleol o wneud hyn.

O ran y cynigion, nodwyd fod cefnogaeth iddynt i gyd, ond fod angen mwy o wybodaeth a dylid pwysleisio'r agwedd o dreth lleol. Bydd ymateb yn cael ei greu ar sail y drafodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.45 y.h.

**CADEIRYDD**